| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Hydref 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog: Cyngor** | **Y Cynghorydd Hugh Evans – Arweinydd y**<br><br>**Gary Williams – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rhys A Hughes - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Penodi Aelodau i Gyrff Allanol** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad yn cynnig enwebiadau Aelodau i gynrychioli Cyngor Sir Ddinbych ar nifer o gyrff allanol.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

Mae angen penderfyniad ar ba gyrff allanol y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn enwebu Aelodau i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Cyngor, a phwy fydd cynrychiolwyr enwebedig y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn ystyried Rhestr 1 (cyrff allanol lle'r ystyrir cynrychioliad Sir Ddinbych yn hanfodol neu'n gorfforaethol fanteisiol) a Rhestr 2 (sefydliadau eraill y gellid penodi cynrychiolwyr y Cyngor iddyn nhw), fel sydd wedi ei atodi i'r adroddiad a:

(a) Chymeradwyo'r penodiadau a argymhellwyd ac a ddangosir yn Rhestr 1;

(b) Pennu pa sefydliadau yn Rhestr 2 ddylai fod â chynrychioliad y Cyngor;

(c) Penodi'r cynghorwyr perthnasol i'r sefydliadau a gymeradwywyd gan y Cabinet o Restr 2.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyn etholiad y Cyngor ym Mai 2012, fe gynhaliwyd ymarferiad i grynhoi rhestr gynhwysfawr o sefydliadau allanol yr oedd Aelodau wedi eu penodi iddyn nhw fel cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych. Gofynnwyd i Aelodau ddychwelyd manylion o'r holl swyddi a ddaliasent ar gyrff allanol, ac fe gysylltwyd â'r cyrff hyn i sefydlu manylion llawn cylch gorchwyl pob sefydliad a rôl yr Aelodau yn eu llywodraeth.

4.2 Fe anfonwyd rhestr o’r cyrff allanol yr oedd Aelodau wedi eu penodi iddyn nhw’n flaenorol at yr Arweinydd a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn ymgynghori;

i) yn gofyn am gadarnhad o unrhyw gyrff perthnasol y gallai CSDd fod â diddordeb mewn penodi Aelodau i wasanaethau fel cynrychiolwyr arnyn nhw;

ii) yn ceisio sylwadau ar berthnasedd parhaus penodi Aelodau i gynrychioli CSDd ar bob un o’r cyrff a restrir.

Yna fe anfonwyd rhestr ddiwygiedig at yr aelodau drwy arweinyddion y pedwar grŵp gwleidyddol, yn gofyn am eglurhad pellach ar berthnasedd parhaus penodi aelodau fel cynrychiolwyr CSDd.

4.3 Gofynnwyd hefyd i grwpiau gwleidyddol gynnig enwebiadau i gynrychioli CSDd ar unrhyw gyrff allanol perthnasol ac mae rhestr fer o benodiadau a gymeradwyir wedi ei rhoi gerbron (yn atodol fel Atodiad 1).

4.4 Fe ddirprwyir penodiadau i sefydliadau allanol i Aelodau Arweiniol priodol yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, ond oherwydd nifer y penodiadau sy’n ofynnol dros ystod eang o feysydd portffolio, gofynnir i’r Cabinet gymeradwyo’r penodiadau hyn drwy benderfyniad cyfunol.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r penodiadau i’w gwneud i ystod o sefydliadau sydd â’u gwaith yn ategu gwaith CSDd tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol, yn enwedig o ran datblygu’r economi leol, gwella safonau ysgolion, gwella ffyrdd, diogelu pobl sy’n agored i niwed ac o ran darpariaeth tai o ansawdd.

## 6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o’n effeithio ar wasanaethau eraill?

Gallai Aelodau fod yn gymwys i hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth am fynychu cyfarfodydd cyrff allanol (gweler Atodlen 2 Cynllun Lwfansau Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor i gael manylion).

Y sefydliadau sy’n codi tâl aelodaeth ydi’r Mersey Dee Alliance (£6000 y flwyddyn), Fforwm Economaidd Gogledd Cymru (£6000 y flwyddyn) ac Awdurdodau Lleol Di-niwclear (£900).

## 7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd ac a gynhaliwyd Sgrinio Asesu Effaith Cydraddoldeb?

Fe ymgynghorwyd ag Arweinydd y Cyngor, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau’r Cyngor, drwy arweinwyr y grwpiau gwleidyddol i sefydlu pa sefydliadau y dylai SCDd enwebu cynrychiolwyr ffurfiol iddyn nhw. Gofynnwyd i’r grwpiau gwleidyddol gyflwyno datganiadau o ddiddordeb gan Aelodau mewn cynrychioli’r Cyngor ar unrhyw sefydliad a restrwyd, ac fe rododd y swyddogion sydd wedi gweithio â’r cyrff allanol gyngor ar yr Aelodau Arweiniol priodol i gymryd y swyddi.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd angen cynnwys costau sy’n gysylltiedig â’r mater yma o fewn cyllideb gyffredinol treuliau aelodau. Dylid ystyried a ydi unrhyw ffioedd sy’n gysylltiedig ag aelodaeth sefydliad yn rhoi gwerth am arian i’r Cyngor.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Mae’n bwysig fod Aelodau’r Cyngor yn ymglymedig â llywodraeth cyrff allanol priodol y mae eu gwaith â chysylltiad agos â Chyngor Sir Ddinbych neu’n effeithio ar gymunedau lleol ac felly, os na wneir y penodiadau hyn, mae yna berygl na fydd buddiannau CSDd a phreswylwyr Sir Ddinbych yn cael eu hystyried yn llawn yn eu llywodraeth. Dylai canlyniad ystyriaeth y Cabinet olygu rhestr wedi ei diweddaru a’i chymeradwyo o gynrychiolwyr CSDd ar gyrff allanol priodol.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

Dan Ran 9 o Gyfansoddiad y Cyngor [9.1, 1. (A), (c)] mae Aelodau’r Cabinet wedi dirprwyo awdurdod i wneud penodiadau i gyrff allanol sydd â’u cylch gwaith yn llwyr o fewn portffolio’r Aelod Cabinet, ac eithrio pwyllgorau ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill. Mae’n rhaid i Arweinydd y Cyngor wneud y penodiadau hynny.

Oherwydd nifer ac ehangder cyrff allanol sy’n gofyn am benodiadau Aelodau, mae’r adroddiad yma’n gofyn i’r Cabinet wneud penderfyniad cyfunol i benodi Aelodau i’r sefydliadau a restrir yn Atodiad 1.